



## **Diben y nodyn cyfarwyddyd hwn**

Mae'r nodyn hwn yn cynnwys cyngor ar sut i nodi'r blaenoriaethau cywir yn eich cynlluniau ardal er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y materion perthnasol ac ar gamau gweithredu a bod modd eu monitro a'u gwerthuso. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod angen i'r cynlluniau fod yn ddatblygiad o'ch asesiad o'r boblogaeth a chanolbwyntio ar wasanaethau integredig.

Dywed Canllawiau Statudol bod yn rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau yn ymwneud â:

- ◆ Phobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- ◆ Pobl ag anableddau dysgu;
- ◆ Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc
- ◆ Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd: a
- ◆ Phlant sydd ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

Bydd eich asesiad o'r boblogaeth wedi nodi meysydd blaenoriaeth eraill ac fe allwch, wrth gwrs, gynnwys meysydd eraill ymysg eich blaenoriaethau os ydynt wedi dod i'r amlwg fel rhan o'ch asesiad o'r boblogaeth. Disgwylir i chi ddisgrifio gweithgarwch rhanbarthol a gweithgarwch integredig yn erbyn pob un o'r themâu craidd yn eich cynllun ardal.

Hefyd, bydd angen i chi gyfeirio at faterion nad ydynt yn gymwys i fod yn flaenoriaethau ond a ddaeth i'r amlwg yn eich asesiad o'r boblogaeth.

Disgwylir mai integreiddio fydd man cychwyn pob blaenoriaeth. Yn anad dim, disgwylir i chi ystyried y dewisiadau ar gyfer integreiddio yn eich meysydd blaenoriaeth o'r cychwyn cyntaf, gan egluro natur integreiddio yn eich Cynllun Ardal (gweler adran 2.5 yn nhempeld y Cynllun Ardal).

## **Canllawiau/cyngor**

Mae sawl math o fodel cynllunio y gellid ei ddefnyddio i greu'r cynlluniau ardal, e.e. cynlluniau gwasanaethau, cynlluniau busnes, cynlluniau datblygu, cynlluniau gwella, cynlluniau gweithredu. Peidiwch â rhoi gormod i sylw i'r gwahaniaethau hyn, a dylech chi ystyried y cynllun ardal yn ganlyniad y gellir ei ddangos o'ch asesiad o'r boblogaeth.

Felly, dylai'r cynllun gynnwys y wybodaeth sydd ei hangen i sicrhau bod y prif flaenoriaethau a nodwyd yn eich asesiad yn arwain at ganlyniadau a chamau gweithredu sy'n argyhoeddi'r darllenydd bod yna lif rhesymegol o'ch asesiad o angen, eich proses o nodi bylchau mewn darpariaeth gwasanaethau, a'ch bwriad i wneud newidiadau a gwelliannau lle mae eu hangen fwyaf.

## Pennu blaenoriaethau sy'n seiliedig ar ganlyniadau

Bydd yn hollbwysig nodi'ch blaenoriaethau yn glir cyn datblygu'ch cynlluniau. Roedd yr asesiadau poblogaeth cyfunol yn mynegi blaenoriaethau mewn ffyrdd gwahanol, ac roedd rhai'n fwy penodol o lawer na'i gilydd. Dylech adolygu'ch blaenoriaethau i sicrhau eu bod yn cael eu mynegi'n briodol fel sylfaen gywir i ddatblygu cynllun. Er enghraifft, os mai unigrwydd ac arwahanrwydd yw'r pwnc sy'n flaenoriaeth, mae angen i chi ddewis y ffordd fwyaf priodol o ddisgrifio beth rydych chi am ei wneud am y sefyllfa, nid yn unig ar gyfer rheolwyr a gweithwyr proffesiynol, ond mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i'r cyhoedd hefyd. Mae'r enghreifftiau gwahanol o eiriau gweithredu posibl y gellid eu defnyddio ar gyfer eich blaenoriaethau yn dangos bod modd dehongli'ch camau gweithredu arfaethedig yn wahanol gan ddibynnu ar yr hyn rydych chi'n ceisio ei gyflawni.

Felly, er enghraifft, mae "rhoi sylw" i unigrwydd ac arwahanrwydd yn gymharol ddiystyr oni bai ei bod yn glir beth fydd y canlyniadau, tra bod "lleihau" lefelau unigrwydd ac arwahanrwydd, neu hyd yn oed eu "dileu", yn amlygu bwriad cadarnach o lawer. Mae'n bosibl y bydd angen i chi sicrhau bod y blaenoriaethau gwreiddiol yn eich asesiadau o'r boblogaeth yn arwain at ymadroddion sy'n cyfleu gweithredoedd er mwyn rhoi ffocws priodol i'ch cynllun. Mae'n bwysig iawn gwneud hyn oherwydd bydd eich cynllun yn cael ei fonitro a'i werthuso yn erbyn y bwriad hwn. Gallwch chi ystyried defnyddio amcanion CAMPUS, h.y. mynegi blaenoriaethau cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol. Gallwch chi ystyried y model hwn gan ddefnyddio amrywiadau gwahanol ar gyfer acronymau CAMPUS, e.e.

**C** - cyraeddadwy, arwyddocaol, yn ymestyn

**A** – amserol, ystyrlon, cymhellol

**M** – mesuradwy, wedi'u cytuno, cyflawnadwy, derbyniol, canolbwyntio ar gamau gweithredu

**P** – penodol, realistig, perthnasol, rhesymol, gwerth chweil, canolbwyntio ar ganlyniadau

**U** – uchelgeisiol, amser-gyfyngedig, amserol, diriaethol, hawdd i'w holrhain

**S** - synhwyrol

Mae'n gwbl glir yn y canllawiau bod yn rhaid i gydgylluniau ardal ganolbwyntio ar wasanaethau integredig (gweler paragraff 26 o'r canllawiau statudol) ar gyfer pob un o'r themâu craidd sydd wedi'u cynnwys yn eich asesiad o'r boblogaeth, a dylai'ch blaenoriaethau adlewyrchu hyn. Nid oes disgwyl i chi greu cynllun sy'n cynnwys pob cam gweithredu posibl y byddech am ei roi ar waith mewn perthynas â gofal a chymorth. Yn eu hanfod, mae blaenoriaethau'n peidio â bod yn flaenoriaethau pan fyddant yn ceisio mynd i'r afael â phopeth. Yn hytrach, mae'n rhaid i'ch blaenoriaethau:

- ♦ Adlewyrchu canlyniadau'ch asesiad o'r boblogaeth;
- ♦ Canolbwyntio ar faterion lle mai atebion integredig yw canolbwynt y sylw;
- ♦ Cynnwys y meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn y canllawiau (paragraff 27);
- ♦ Cynnwys meysydd eraill ymysg eich blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg yn ystod eich asesiad o'r boblogaeth.

### Cofiwch

*Bydd eich asesiad o'r boblogaeth wedi amlygu anghenion amrywiol. Bydd modd mynd i'r afael â rhai o'r blaenoriaethau hyn ar lefel leol. Yn y lle cyntaf, dylech sicrhau eich bod wedi cynnwys blaenoriaethau yn eich cynllun sydd angen ymateb integredig a/neu ymateb rhanbarthol. Cofiwch hefyd mai cynllun pum mlynedd yw hwn a bod angen pennu blaenoriaethau hirdymor.*

## Adlewyrchu canfyddiadau'r asesiad o'r boblogaeth

Mae'n bosibl y byddwch chi'n teimlo o hyd nad yw'ch cynllun yn rhoi cydnabyddiaeth ddigonol i feysydd gwasanaeth na ddaethant i'r amlwg i'r un graddau yn eich asesiad o'r boblogaeth, ond sydd angen eu gwella neu eu datblygu, gan gynnwys rhai meysydd na fyddent angen ymateb integredig ar hyn o bryd. Dylech gadarnhau a yw'r materion hyn yn cael sylw digonol yn rhywle arall, e.e. mewn strategaeth benodol, ond bydd angen cyfeirio atynt yn eich cynllun ardal o dan y thema graidd berthnasol. Mewn achosion o'r fath, dylech chi esbonio safbwynt y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar y materion dan sylw a chyfeirio darllenwyr i'r cynllun neu'r strategaeth berthnasol. Yr egwyddorion pwysig yn y cyswllt hwn yw cydnabod pwysigrwydd y mater, sicrhau eich bod yn fodlon bod y mater yn cael sylw digonol, a nodi sut drwy gynnwys cyfeiriad addas, e.e. hyperddolen. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chasglu drwy unrhyw ymarferion diweddar yn ymwneud â chomisiynu neu sefyllfa yn y farchnad.

Wrth egluro safbwynt y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar y materion "eraill" hyn, mae'n bosibl na fydd angen gwneud dim mwy na dweud y bydd y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth reolaidd am unrhyw gynnydd. Neu mae'n bosibl y bydd angen cynnwys cyfeiriad mwy pendant fel "Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn monitro cynnydd yn rheolaidd drwy ddefnyddio data a gwybodaeth er mwyn penderfynu a oes angen iddo weithredu ymhellach." Dylech sicrhau bod eich neges yn gwbl glir am yr hyn rydych yn ei wneud am y mater dan sylw.

Mae'n ddefnyddiol ystyried eich dull o nodi blaenoriaethau fel ymarferiad dwy haen. Mae'r haen gyntaf yn ymwneud â'r blaenoriaethau sy'n ganolog i'ch cynllun. Mae'r ail haen yn sicrhau eich bod wedi cynnwys yr holl faterion ac anghenion eraill a ddaeth i'r amlwg yn eich asesiad o'r boblogaeth, a'ch bod wedi cyfeirio at y camau gweithredu yn ymwneud â nhw. Bydd y dull gweithredu hwn yn sicrhau bod gan eich asesiad o'r boblogaeth drywydd archwilio cadarn ac nad oes unrhyw beth wedi'i anwybyddu heb ddrysu darllenwyr ynglŷn â beth yw'ch Prif Flaenoriaethau. Bydd yn gwneud hyn heb ddrysu'r darllenwyr ynglŷn â natur eich prif flaenoriaethau. Mewn gwirioneddol, byddwch yn benodol iawn ynglŷn â'ch prif flaenoriaethau a'ch camau gweithredu, ac yn llai penodol am y materion eraill.

### Cwestiynau myfyriol

- ◆ A yw'ch cynllun yn ddatblygiad naturiol a rhesymegol o'ch asesiad o'r boblogaeth?
- ◆ A yw'r blaenoriaethau a nodir yn eich asesiad o'r boblogaeth wedi'u hadlewyrchu yn eich cynllun?
- ◆ A ydych chi wedi mynegi'r blaenoriaethau hyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod camau gweithredu yn gallu dilyn a chael eu monitro?
- ◆ A yw'ch cynllun yn canolbwyntio ar wasanaethau integredig ar gyfer pob thema graidd? (gweler Nodyn cyfarwyddyd 1b)
- ◆ A yw'ch cynllun yn cynnwys y meysydd blaenoriaeth y cyfeirir atynt ym Mharagraff 27 o'r canllawiau?
- ◆ A ydych chi wedi croesgyfeirio materion eraill sy'n derbyn sylw drwy gynlluniau neu strategaethau eraill ac egluro safbwynt y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol arnynt?



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**